

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

16/10/26

Annwyl Rieni,

Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pen Barras - 20/10/26

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pen Barras eleni ar ddydd Mawrth, 20 Hydref 2026 am 9.45yb yng Nghapel Bethania, Stryd Mwrog, Rhuthun.

Gwasanaeth ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 ynghyd â staff yr ysgol fydd hwn. Yn anffodus, oherwydd cyfyngder lle, **ni fyddwn yn gallu cynnwys rhieni yn y gynulleidfa**. Byddwn yn cerdded o'r ysgol i'r capel yn y bore ar gyfer y gwasanaeth.

Yn ystod y gwasanaeth, bydd eitemau amrywiol gan blant o bob rhan o'r ysgol, ac fe fydd anerchiad byr gan ein gŵr gwadd eleni, y Parch Huw Dylan.

Bydd y plant yn cerdded yn ôl i'r ysgol cyn amser cinio, felly bydd trefniadau cinio arferol yn parhau ar gyfer pob disgybl.

Gofynnwn yn garedig am roddion o gynnyrch diolchgarwch i addurno'r capel. Gall teuluoedd gyfrannu eitemau megis bwydydd tun, nwyddau wedi'u pecynnu, ffrwythau neu lysiau.

Yn ystod y prynhawn, bydd cynrychiolwyr o'r Cyngor Ysgol yn dosbarthu'r cynnyrch tun a phacedi bwyd i Fanc Bwyd Rhuthun. Byddwn yn cyfarfod â chynrychiolwyr y Banc Bwyd, Miss Morfydd Jones a Mr Bob Ellis, y tu allan i'r Banc Bwyd ar Stryd y Farchnad, Rhuthun.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Mae'n bwysig iawn i ni fel ysgol fod yn weithredol o fewn ein cymuned leol, ac mae cefnogi capeli a banciau bwyd y dref yn helpu i ddatblygu gwerthoedd megis caredigrwydd, cymuned a chyfrifoldeb ymhlith ein pobl ifanc.

Yn gywir,

Dyfan Phillips
Pennaeth
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

16/10/26

Dear Parents,

Ysgol Pen Barras Harvest Thanksgiving Service - 20/10/26

This year's Ysgol Pen Barras Harvest Thanksgiving Service will be held on Tuesday, 20 October 2026 at 9.45am at Bethania Chapel, Mwrog Street, Ruthin.

The service is for pupils in Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6, together with school staff. Unfortunately, due to lack space in the chapel, we will not be able to invite parents to the service. We will walk from the school to the chapel in the morning for the service.

During the service, there will be a variety of performances and contributions from pupils across the school, and we will also welcome our guest speaker this year, Rev. Huw Dylan, who will deliver a short address.

The children will walk back to school before lunchtime, so normal lunch arrangements will remain in place for all pupils.

We kindly ask for donations of harvest produce to help decorate the chapel. Families are welcome to contribute items such as tinned foods, packaged goods, fruit or vegetables.

During the afternoon, representatives from the School Council will deliver the collected tinned and packaged goods to Ruthin Food Bank. We will meet representatives from the Food Bank, Miss Morfydd Jones and Mr Bob Ellis, outside the Food Bank on Market Street, Ruthin.

Thank you in advance for your support. It is very important to us as a school to play an active role within our local community, and supporting local chapels and food banks helps to develop values such as kindness, community spirit and social responsibility among our young people.

Yours sincerely

Dyfan Phillips
Headteacher
Ysgol Pen Barras